

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o bell, 1 Mawrth, 2022.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Cadeirydd); Cynghorwyr:
Dr. I.J. Johnson, K.F. McCaffer a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet
Addysg ac Adfywio), R. Freitag ac I. Phillips (Archwilio Cymru).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr P. Drake a J.M. Norman, ac P. Lewis (Aelod Lleyg).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar
13 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ARCHWILIAD O ASESIAID 2020-21 CYNGOR BRO MORGANNWG O BERFFORMIAD A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION I'W GWELLA (CYF) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. GRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2021 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys Grynodedb Archwilio Blynyddol Cyngor Bro
Morgannwg 2021.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CYFLWYNO STRATEGAETH FUDDSODDI GWASANAETH DI-DRYSORLYS, Y GRONFA BUDDSODDI A THWF (CYF) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys y Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau Heblaw'r Trysorlys.
- (2) Y dylid hysbysu'r Cyngor o sylwadau a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:

- Pryder y gallai hyn arwain at rywbeth gor-fiwrocraidaidd felly angen eglurder penodol o amgylch yr agwedd amseru, yr hyn y mae buddsoddiadau'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur;
- Bod mwy o waith yn cael ei wneud ar y fethodoleg o sut y gwneir buddsoddiadau;
- Pryder ynghylch yr effaith bosibl ar fuddsoddiadau ac asedau yn sgil cynnydd yn y Cyfraddau Llog yn y dyfodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi gwybod i'r Cyngor am farn a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

EITEM AGENDA 7. COD RHEOLAETH ARIANNOL 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r Datganiad ar Gydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol (Atodiad 1 i'r adroddiad).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ARCHWILIO CYMRU: GWAITH PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o adolygiad Archwilio Cymru o waith partneriaeth y Cyngor gyda'r Trydydd Sector (Atodiad A i'r adroddiad) ac

ymateb y Cyngor i'r adolygiad a chynigion Archwilio Cymru ar gyfer gwella fel y nodir yn yr adroddiad.

(2) Cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w gymeradwyo i'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ynghyd â sylwadau perthnasol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Ac Adnoddau Corfforaethol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i'r Cabinet gymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad.

EITEM AGENDA 9. STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A BUDDSODDI 2022/23 A DIWEDDARIAD AR GYFER 2021/22 (PCDD) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r adroddiad dros dro ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2021.

(1) Cymeradwyo'r polisi ar gyfer gwneud Darpariaeth Isafswm Refeniw yn 2022/23.

(3) Cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2022/23 gan gynnwys y penderfyniadau penodol canlynol (a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad):

- Pennu'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £223.352m ar gyfer 2021/22, £241.693m ar gyfer 2022/23, £274.792m ar gyfer 2023/24 a £288.151m ar gyfer 2024/25.
- Pennu'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £212.948m ar gyfer 2021/22, £230.785m ar gyfer 2022/23, £264.384m ar gyfer 2023/24 a £277.743m ar gyfer 2024/25.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i sicrhau symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill.
- Pennu'r terfyn uchaf ar ei gyfradd llog sefydlog o £148.716m ar gyfer 2021/22, £172.311m ar gyfer 2022/23, £208.615m ar gyfer 2023/24 a £230.455m ar gyfer 2024/25 o'i brif swm net sy'n weddill ar ei fenthyciadau / buddsoddiadau.
- Pennu'r terfyn uchaf ar ei gyfradd llog amrywiol o £0 ar gyfer 2021/22, 2022/23, 2023/24 a 2024/25 o'i brif swm net sy'n weddill ar ei fuddsoddiadau.

- Pennu'r terfyn uchaf o £10m ar gyfer 2021/22, £10m ar gyfer 2022/23, £10m yn 2023/24 a £10m yn 2024/25 ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddiwyd am dros 364 diwrnod.
- Pennu swm y benthyciadau a ragamcennir sy'n aeddfedu ar gyfradd sefydlog ym mhob cyfnod yn ganran o gyfanswm y benthyciadau a ragamcennir sy'n gyfradd sefydlog ar gyfer 2022/23 fel Terfyn Uchaf; Terfyn Isaf Dan 12 mis 20%; 0%, 12 mis ac o fewn 24 mis 20%; 0%, 24 mis ac o fewn 5 mlynedd 30%; 0%, 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd 40%; 0%, 10 mlynedd ac mwy 100%; 0%
- Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- Cymeradwyo Polisi Rheoli'r Trysorlys a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo mabwysiadu rhifyn 2021 newydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) o'r Cod Darbodus yn ffurfiol ynghyd â Rheoli'r Trysorlys yn y Cod Ymarfer i Wasanaethau Cyhoeddus a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-sectoraidd.

Rheswm dros y penderfyniad

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. DIWEDDARIAD CHWARTER 3 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sefyllfa risgiau corfforaethol Chwarter 3 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 – Rhagfyr 2021 fel yr amlinellwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Cyfeirio unrhyw sylwadau i'r Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried adroddiad diweddar Cofrestr Risg Chwarter 3 a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu hystyried pan gyflwynir sefyllfa Chwarter 3 y Gofrestr Risg i'r Cabinet.

EITEM AGENDA 11. CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLYN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL (PGAR) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2021-22.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 12. POLISIÀU ATAL TWYLL DRAFFT (PGAR) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r Polisiâu Atal Twyll drafft.
- (2) Bod y Cabinet yn cael gwybod am unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor a bod y Polisiâu Atal Twyll drafft yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am farn y Pwyllgor ar y Polisiâu Atal Twyll drafft cy neu cymeradwyo.